# ROBERTS, RICHARD ('Bardd Treflys '; 1818 - 1876)

**Enw:** Richard Roberts
**Ffugenw:** Bardd Treflys
**Dyddiad geni:** 1818
**Dyddiad marw:** 1876
**Rhiant:** Mary Roberts
**Rhiant:** Thomas Roberts
**Rhyw:** Gwryw
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** William Llewelyn Davies

mab Thomas Roberts, Garthmorthin, Treflys, rhwng Porthmadog a Chricieth, Sir Gaernarfon - yr oedd o deulu ' Dafydd y Garreg Wen.' Pan oedd tuag 20 oed aeth i fyw gyda'i ewythr Griffith Roberts, yn y T   Mawr, Treflys, ac yno y treuliodd ei oes, yn ddibriod. Yr oedd yn aelod selog o gymdeithas lenyddol Cefn-y-meusydd - gweler Owen, Ellis. Bu farw 19 Mehefin 1876 a chladdwyd ef ym mynwent eglwys Treflys. Ceir peth o'i waith yn N.L.W. MS. 1010.

## Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

## Ffynonellau


R. I. Jones ('Alltud Eifion'), *Y Gestiana* (Tremadog, 1892)

*Pengryniaid Eifionydd* (Blaenau Ffestiniog 1883), gan y diweddar Richard Roberts (Bardd Treflys), gyda nodiadau ar hanes bywyd y bardd gan R. Rowland


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28361407


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu